



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-2018

Gorffennaf 2018

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio – nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cydymffurfiaeth.....	5
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.....	5
Safonau Llundio Polisiâu.....	6
Safonau Gweithredu.....	6
Cadw Cofnodion.....	8
Cwynion am Iaith	9
Sgiliau Iaith Gymraeg cyflogeion.....	9
Recriwtio.....	10
Hyfforddiant	10

Cyflwyniad

Fel sefydliad annibynnol a ariennir drwy arian cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gydymffurfio â [Safonau'r Gymraeg](#) (Y Safonau), sy'n pennu nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyflenwi a hyrwyddo gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â hwyluso ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Daeth yr hysbysiad o gydymffurfio ar gyfer y Safonau i law'r Comisiynydd ar 25 Gorffennaf 2016, a daeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Comisiynydd wedi'u rhannu'n bedwar categori gwahanol, sef:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisïau
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Cyflwynwyd 145 o Safonau i'r Comisiynydd.

	Dyddiad Cydymffurfio: 25.01.17	Dyddiad Cydymffurfio: 25.07.17	Cyfanswm
Cyflenwi Gwasanaethau	71	0	71
Llunio Polisïau	15	0	15
Gweithredu	47	2	49
Cadw Cofnodion	9	1	10
Cyfanswm	142	3	145

Dyma'r ail adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n manylu ar y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, gan ymdrin â blwyddyn ariannol 2017/18. Felly dyma'r flwyddyn lawn gyntaf pryd mae'r Safonau wedi cael eu rhoi ar waith.

Cydymffurfiaeth

Roedd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiynydd, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, eisoes yn cynnwys nifer o'r mesurau y manylir arnynt yn Safonau'r Gymraeg y Comisiynydd. Roedd hyn yn golygu bod modd sicrhau proses bontio syml i'r Safonau newydd, gan fod nifer ohonynt eisoes yn rhan o bolisiâu ac arferion y Comisiynydd.

Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau, datblygodd y Comisiynydd gynllun gweithredu i roi'r newidiadau gofynnol ar waith. Roedd y cynllun gweithredu hwn yn cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad, a chafodd ei arwain gan y Swyddog Iaith Gymraeg.

Ar ôl i'r cynllun gweithredu hwn gael ei ddatblygu, cynhaliodd y Swyddog Iaith Gymraeg sesiwn wybodaeth ar gyfer holl staff y sefydliad, gan fanylu ar y gofynion newydd o dan Safonau'r Gymraeg, ynghyd â'r camau y byddai'r Comisiynydd yn eu cymryd i'w gweithredu.

Mae cydymffurfiaeth y Comisiynydd â'r Safonau wedi'i nodi isod.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Mae cronfa ddata wedi cael ei chreu sy'n cofnodi dewis iaith pob unigolyn. Mae'r holl staff yn diweddarau'r gronfa ddata yn barhaus
- Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymateb i ohebiaeth (llythyr a neges e-bost), ateb y ffôn, trefnu a chynnal cyfarfodydd, a chyfarch ymwelwyr
- Mae pob llythyr templed wedi cael ei ddiweddarau i gydymffurfio â'r Safonau
- Mae system ffôn wedi cael ei chyflwyno sy'n galluogi'r galwr i ddewis iaith
- Mae pob neges peiriant ateb yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf
- Mae pob aelod o'r staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf
- Mae pob dogfen a gynhyrchir at ddefnydd cyhoeddus yn ddwyieithog

- Gofynnir i bawb sy'n mynychu cyfarfodydd am eu dewis iaith. Os bydd mwy na 10% yn datgan eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, yna darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd
- Mae pob hysbyseb a hysbysiad cyhoeddus yn ddwyieithog
- Mae gwefan y Comisiynydd yn ddwyieithog
- Mae pob arwydd yn cael ei wirio i sicrhau cydymffurfiaeth
- Cyhoeddir pob tendr ar gyfer contract yn ddwyieithog
- Darperir ymateb Cymraeg i dendrau a geir yn Gymraeg, a chaiff unrhyw gyfweiliadau eu cynnal gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd

Safonau Llunio Polisiâu

- Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Safonau Llunio Polisiâu
- Bydd pob aelod o'r staff yn ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i bolisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Mae ffurflen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg dempled wedi cael ei chynhyrchu, i'w defnyddio a'i llenwi gan bob aelod o'r staff
- Mae canllawiau ar Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'u cynhyrchu er mwyn helpu'r staff i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Os caiff ymchwil ei chomisiynu i gynorthwyo'r broses o lunio polisiâu, bydd y staff yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid sicrhau nad yw'r penderfyniad polisi yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Safonau Gweithredu

- Mae'r Comisiynydd wedi llunio polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith, ac mae'r polisi'n cael ei gyhoeddi ar y wefan

- Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno gweithdrefn Adnoddau Dynol lle gofynnir i bob aelod o'r staff a yw'n dymuno cael ei gontract cyflogaeth yn Gymraeg
- Mae'r Comisiynydd wedi gofyn i bob aelod o'r staff a yw'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi'i chyfeirio'n bersonol ato, yn Gymraeg Mae'r Comisiynydd wedi gofyn i bob aelod o'r staff a yw'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'i anghenion hyfforddi a'i amcanion perfformiad yn Gymraeg
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o'r staff a yw'n dymuno cael ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith, ac oriau gwaith hyblyg yn Gymraeg
- Cyhoeddir pob polisi yn ddwyieithog
- Hysbyswyd pob aelod o'r staff y gall wneud cwynion yn Gymraeg a bod ganddo'r hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdano yn Gymraeg
- Cynigir cyfle i bob aelod o'r staff gynnal unrhyw gyfarfodydd sy'n ymwneud â chwynion amdano yn Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd)
- Cyhoeddir unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o'r staff yn Gymraeg
- Mae polisiâu wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r Safonau
- Darparwyd meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer staff y mae arnynt ei hangen i wirio eu sillafu a'u gramadeg yn Gymraeg (Cysgair a Cysill)
- Mae sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o'r staff wedi cael eu hasesu drwy hunanasesiad
- Mae'r Comisiynydd wedi cynnig cyfleoedd i gyflogeion gael hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau Gwaith. Yn ystod 2017/18, cafodd pob gweithiwr gyfle i fynychu hyfforddiant ar ddydd Llun ar lefel dechreuwr, canolradd neu uwch.
- Daeth cynrychiolydd o Brifysgol Caerdydd i gyfarfod tîm ym mis Mai 2017 i drafod hanes y Gymraeg a'i lle yn niwylliant Cymru

- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod newydd o'r staff yn rhan o'i gyfnod ymsefydlu. Rhoddodd aelodau newydd staff adborth cadarnhaol am y pecyn cynefino
- Darparwyd geiriad a logo ar gyfer llofnod e-bost staff er mwyn rhoi gwybod i bobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr
- Caiff sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag eu hasesu
- Hysbysebir swyddi yn ddwyieithog, gan ddatgan y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol
- Mae hysbysebion yn datgan bod y Comisiynydd yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg
- Cyhoeddir yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â recriwtio yn ddwyieithog
- Mae ffurflenni cais yn darparu gofod er mwyn i unigolion ddatgan a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cam cyfweliad, ac yn nodi y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu
- Caiff unrhyw arwyddion newydd eu harddangos yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf

Cadw Cofnodion

- Mae Comisiynydd yn cadw cofnod o nifer y cwynion y bydd yn eu cael mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- Mae Comisiynydd yn cadw copi o unrhyw gŵyn y bydd yn ei chael mewn perthynas â'r Safonau
- Mae Comisiynydd yn cadw cofnod o'r camau a gymerir i gydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisïau
- Mae Comisiynydd yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o'r staff, yn ogystal â chopi o'r hunanasesiadau
- Mae Comisiynydd yn cadw cofnod o'r asesiadau a gynhelir ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg swyddi newydd neu swyddi gwag
- Mae Comisiynydd yn cadw cofnod o gategori pob swydd newydd neu swydd wag o ran y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol.

Cwynion am laith

Yn ystod 2017/18, ni chafwyd yr un gŵyn am gydymffurfiaeth y Comisiynydd â Safonau'r Gymraeg.

Sgiliau laith Gymraeg cyflogeion

Yn ystod 2017/18, cyflogwyd 22 o aelodau o staff gan y Comisiynydd. Cynhaliwyd yr Arolwg o'r laith Gymraeg yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2018. Ymatebodd yr holl aelodau o'r staff i'r arolwg, ac eithrio un aelod a oedd ar gyfnod mamolaeth. Dyma'r canlyniadau yn y tablau isod:

Adran	Lies a Grymuso*	Materion Corfforaethol**	Y Comisiynydd	Cyfanswm
Nifer y staff	14	7	1	22
Dim sgiliau	4	0	1	5
Mynediad	3	3	-	6
Sylfaenol	0	1	-	1
Canolradd	2	1	-	3
Uwch	0	1	-	1
Rhugl	5	1	-	6

* Mae'r adran hon yn cynnwys Uwch-weithwyr Achosion y Comisiynydd, sy'n rheoli ymholiadau gan y cyhoedd.

** Mae'r adran hon yn cynnwys staff cymorth gweinyddol rheng flaen y Comisiynydd.

Adran	Cyflog					Cyfanswm
	B	C	D	F	Y Com	
Dim sgiliau	-	-	3	1	1	5
Mynediad	1	2	3	-	-	6
Sylfaenol	1	-	-	-	-	1
Canolradd	-	2	1	-	-	3
Uwch	-	-	-	1	-	1
Rhugl	2	3	1	-	-	6

Recriwtio

Hysbysebwyd dwy swydd newydd yn ystod 2017/18, sef: Swyddog Polisi (swydd am gyfnod penodol o flwyddyn) ac Uwch Weithiwr Achos (swydd am gyfnod penodol o ddwy flynedd). Cynhaliwyd asesiadau ynghylch y Gymraeg ar gyfer y ddwy swydd a phenderfynwyd y byddai'r ddwy swydd yn y categori lle 'byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd'.

Hyfforddiant

Ni chafodd unrhyw hyfforddiant ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg na'r Saesneg ar faterion megis recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwynion a disgyblu, cynefino, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch.